

Julie James AC
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

12 Hydref 2018

Annwyl Julie

Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2019–20

Bydd y Pwyllgor yn cynnal ei sesiynau craffu ar gyllideb ddrafft 2019–20 ar 15 Tachwedd, gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gweinidog Tai ac Adfywio.

Ym mis Awst, ysgrifennom at Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog mewn perthynas â'r polisiâu a'r ddeddfwriaeth allweddol i graffu arnynt yn eu portffolios, gan ofyn am bapur manwl ar y dyraniadau yn seiliedig ar yr egwyddorion craffu ariannol y cytunodd y Pwyllgor Cyllid arnynt. Amlinellir yr egwyddorion y cytunwyd arnynt isod:

- **Fforddiadwyedd** – edrych ar y darlun mawr o ran cyfanswm y refeniw a gwariant, ac a oes cydbwysedd priodol;
- **Blaenoriaethu** – a yw'r dyraniadau wedi'u rhannu rhwng sectorau/rhaglenni gwahanol mewn ffordd resymol y gellir ei chyfiawnhau;
- **Gwerth am arian** – Yn y bôn, a yw cyrff cyhoeddus yn gwario eu dyraniadau yn dda – canlyniadau (h.y.) economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd; a
- **Phrosesau'r gyllideb** – a ydynt yn effeithiol ac yn hygyrch ac a oes integreiddio rhwng cynllunio corfforaethol a chynllunio gwasanaethau, a rheoli perfformiad a rheoli ariannol.



Wedi'i gynnwys yn y llythyr, yn y rhestr o ddeddfwriaeth ar gyfer craffu arni, roedd y *Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015*. Ymatebodd y swyddogion i'r llythyr ar 10 Hydref i'n hysbysu y dylem ysgrifennu atoch chi yn uniongyrchol i ofyn am wybodaeth am y Ddeddf hon, gan ei bod yn dod o fewn eich portffolio.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu papur dwyieithog i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r Ddeddf hon, yn seiliedig ar yr egwyddorion y cytunodd y Pwyllgor Cyllid arnynt, erbyn 25 Hydref. Dyma'r dyddiad terfynol a roddwyd i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gweinidog Tai ac Adfywio.

Yn gywir



John Griffiths AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

